



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher, 29 Gorffennaf 2020 am 3.00pm –
Ar-lein.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd R. Bevan
Y Cynghorydd H. Boggis	Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd S. Bradwick	Y Cynghorydd J. Brencher
Y Cynghorydd A Calvert	Y Cynghorydd G. Caple
Y Cynghorydd A Chapman	Y Cynghorydd A. Cox
Y Cynghorydd A. Crimmings	Y Cynghorydd J Cullwick
Y Cynghorydd A Davies-Jones	Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd M Diamond	Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd A Fox	Y Cynghorydd H Fychan
Y Cynghorydd E George	Y Cynghorydd D. Grehan
Y Cynghorydd E Griffiths	Y Cynghorydd M. Griffiths
Y Cynghorydd J Harries	Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L. Hooper	Y Cynghorydd G. Hopkins
Y Cynghorydd P. Howe	Y Cynghorydd G. Hughes
Y Cynghorydd J James	Y Cynghorydd P. Jarman
Y Cynghorydd G Jones	Y Cynghorydd L. Jones
Y Cynghorydd W Jones	Y Cynghorydd R. Lewis
Y Cynghorydd W Lewis	Y Cynghorydd C. Leyshon
Y Cynghorydd A Morgan	Y Cynghorydd S. Morgans
Y Cynghorydd M. Norris	Y Cynghorydd D Owen-Jones
Y Cynghorydd S Pickering	Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd S Powell	Y Cynghorydd S Rees-Owen
Y Cynghorydd S. Rees	Y Cynghorydd A. Roberts
Y Cynghorydd J Rosser	Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd E Stephens	Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd R Turner
Y Cynghorydd L Walker	Y Cynghorydd M Weaver
Y Cynghorydd M. Webber	Y Cynghorydd E. Webster
Y Cynghorydd D. Williams	Y Cynghorydd J. Williams
Y Cynghorydd T Williams	Y Cynghorydd R. Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Mr G. Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

167 Cyflwyniadau

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan (Grŵp Llafur)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp y Gynghrair)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James (Grŵp y Ceidwadwyr)

I gydnabod y newid yng nghydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor yn dilyn hysbysiad swyddogol o newid i aelodaeth Grŵp Annibynnol RhCT, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, y byddai adroddiad yn amlinellu'r newid mewn cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

168 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, J Edwards, J Elliott, S M Evans, A S Fox, M Forey, K L Jones, K Morgan, W Owen, M Tegg, G D Williams a C Willis. Derbyniwyd ymddiheuriad hefyd gan Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr.

169 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman at y gollyngiad a gafodd hi gan y Pwyllgor Safonau ar 23 Tachwedd 2019, gan nodi'r canlynol: "Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2020-2021 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid".

Cyhoeddodd Mr Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran, Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen, y buddiant personol, heb ragfarn, canlynol o ran Eitem 11 ar yr Agenda (Penodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, a thrafodaeth y Cyngor ynglŷn â'r argymhelliad ar gyfer swydd y Dirprwy Brif Weithredwr) gan nodi "Gadawaf y cyfarfod pan fydd yr eitem yn cael ei drafod"

170 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar-lein blaenorol o'r Cyngor, a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2020, yn rhai cywir.

171 Atal Rheolau Sefydlog

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas ag atal Rheol Trefniant 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

172 Datganiadau

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan y datganiad canlynol mewn perthynas â dau ddigwyddiad mawr sydd wedi effeithio ar yr Awdurdod Lleol, sef y llifogydd ym mis Chwefror ac yna pandemig y Coronafeirws.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyfnod digynsail a wynebodd Rhondda Cynon Taf, trigolion a busnesau lleol yn sgil y ddau ddigwyddiad mawr. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio i fynd i'r afael â'r pwysau, yn enwedig y pwysau ariannol, sy'n gysylltiedig â chydbwyso cyllideb y Cyngor, y costau ychwanegol, yr incwm a gollwyd a'r difrod i isadeiledd ledled y Fwrdeistref Sirol o ganlyniad i'r llifogydd. Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan ynghylch sicrhau cymorth pellach i fynd i'r afael â'r difrod i isadeiledd yn dilyn y llifogydd yn RhCT.

Dywedodd yr Arweinydd y caiff yr Adolygiad Cyllideb Canol Blwyddyn a, gynhelir fel arfer ym mis Chwefror, ei adrodd i'r Cyngor Llawn ym mis Medi neu fis Hydref. Y gobaith yw y bydd y costau o ran Covid-19 yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru/San Steffan ond bydd angen i'r awdurdod lleol fynd i'r afael â'r mater yma os na fydd rhai costau'n cael eu talu'n llwyr. Bydd y Cyngor yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol a bydd trafodaethau'n parhau.

Esboniodd yr Arweinydd hefyd y bydd adolygiad Gwariant Cyfalaf yn cael ei gynnal er mwyn llunio pecyn ysgogi a fydd yn cefnogi'r buddsoddiad a'r isadeiledd presennol, fel bod modd sicrhau swyddi a thwf economaidd ledled y Fwrdeistref Sirol.

173 Cwestiynau

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A allwch amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori â chynghorwyr ar effaith COVID19 ar eu wardiau er mwyn helpu i'r Cyngor cynllunio o ran adferiad a hefyd o'r posibilrwydd o ail don?"

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

"Croesawodd y Cynghorydd Morgan unrhyw adborth gan Aelodau Lleol ynglŷn â materion lleol sy'n ymwneud â Covid-19. Gan fod Covid yn effeithio ar bob ward etholiadol, mae angen rhoi llawer o wasanaethau ac ymatebion ar waith ar raddfa ehangach. Ychwanegodd ei bod hi'n annhebygol y bydd ail don sylweddol ond, yn hytrach, bydd nifer uwch o achosion yn barhaus am beth amser i ddod.

Mae Rhaglen Diogelu, Olrhain a Phrofi Llywodraeth Cymru ar waith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achosion fel y digwyddiadau diweddar hynny ym Merthyr Tudful a Wrecsam, a oedd yn achosion lle trosglwyddwyd yr haint yn y gweithle. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwersi gwerthfawr a ddysgwyd yn sgil pandemig Covid-19, megis gweithio gyda'r rhai sy'n agored i niwed yn ein cymunedau, a sut y gallwn barhau i'w cefnogi mewn cydweithrediad â'r gwirfoddolwyr yn y gymuned wrth symud ymlaen, a hynny mewn sawl ffordd, er enghraifft cyrchu archebion bwyd ar-lein trwy'r archfarchnadoedd.

Croesawodd yr Arweinydd unrhyw enghreifftiau ac adborth gan Aelodau Etholedig.

Cwestiwn atodol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan i Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Un o'r pethau nad yw'n glir ar hyn o bryd yw'r holl waith achos sydd wedi cynyddu, a'r gwaith rydyn ni fel Cyngorwyr yn ei wneud gyda gwirfoddolwyr, sy'n cael ei golli gan y Cyngor. Er yr hoffwn weld rhai o'r cyfyngiadau'n cael eu llacio, mae nifer o bobl yn dal i fod yn hunanynysu ac mae nifer o fusnesau yn methu â gweithredu'n llawn oherwydd y rheol 2 fetr, fel y gwelsom mewn e-bost a gefais i a'r Arweinydd ddoe gan Cortile Coffee ym Mhontypridd, cwmni sydd â dyfodol ansicr. Sut y bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi pobl sy'n hunanynysu, sef y rhai sy'n gwarchod, a hefyd busnesau ym Mhontypridd, sydd wedi dioddef yn fawr o ganlyniad i'r llifogydd a Covid-19?”

Ymateb gan y Cyngorydd A. Morgan:

Dyweddodd yr Arweinydd fod y carfanau canol tref, sy'n cynnwys staff sydd wedi'u hadleoli o feysydd gwasanaeth eraill, wedi bod yn ymweld â busnesau er mwyn darparu cyngor a phosteri gwybodaeth pellach yn dilyn y llifogydd a Covid-19. Lle mae materion penodol wedi codi sy'n ymwneud â grantiau, mae'r Cyngor wedi cysylltu â LIC i weld a yw busnesau'n gymwys ac wedi derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae swyddogion o'r carfanau Adfywio yn dal ati ymweld â chanol y trefi bob dydd er mwyn siarad â busnesau.

Dyweddodd yr Arweinydd y byddai'r gefnogaeth gymunedol a ddarperir i'r preswylwyr agored i niwed hynny drwy'r hybiau yn cael ei lleihau yn ystod yr wythnosau nesaf, gyda'r bwriad o ddal ati i ddarparu rhywfaint o gymorth i drigolion agored i niwed mewn ffyrdd mwy uniongyrchol - er enghraifft trefnu bod meddyginiaeth yn cael ei gludo iddyn nhw'n uniongyrchol o'r fferyllfeydd, a threfnu bod modd iddyn nhw siopa bwyd ar-lein yn lle darparu pecynnau bwyd.

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gefnogi'r economi leol?”

Ymateb gan y Cyngorydd A. Morgan:

“Cadarnhaodd yr Arweinydd fod grantiau gwerth miliynau o bunnoedd wedi'u prosesu ar gyfer busnesau lleol drwy'r rhaglenni rhyddhad ardrethi busnesau bach. Bydd y cyngor hefyd yn prosesu Rhyddhad Busnes yr Ardreth Annomestig Genedlaethol er mwyn ysgogi'r economi leol a chefnogi busnesau lleol dros y 12 mis nesaf. Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor (oddeutu £150 miliwn o wariant y

llynedd) yn buddsoddi yn seilwaith y Cyngor, megis ardaloedd chwarae, priffyrdd ac ysgolion, ac mae'n gysylltiedig â nifer sylweddol o swyddi. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd nifer o Raddedigion/Prentisiaid yn cael eu cyflogi, 50 i ddechrau erbyn y Nadolig, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid pellach. Cyfeiriodd yr Arweinydd at nifer o fentrau a fydd yn denu buddsoddiadau mewnol i'r ardal, megis yr unedau newydd yn Nhresalem a Choed-elái, yn ogystal â'r gwaith agos sy'n mynd rhagddo gyda Zip World er mwyn helpu i hybu'r economi.

Cwestiwn atodol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes i Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Sut mae modd i'r Cyngor ysgogi'r economi leol a helpu i ddarparu gwytnwch yn erbyn heriau economaidd y dyfodol?”

Ymateb gan y Cyngorydd A. Morgan:

Ymatebodd yr Arweinydd trwy gyfeirio at y pecyn ysgogi a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, a fydd yn cyflymu rhai o'r buddsoddiadau. Mae cyfleoedd eraill hefyd yn gysylltiedig ag isadeiledd gwastraff y Cyngor, y Parc Eco yn Aberdâr, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny mae'r Cyngor yn edrych ar sut mae modd ysgogi buddsoddiad preifat o'r sector preifat. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai manylion pellach yn cael eu cyflwyno ym mis Hydref.

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon: -

“A oes modd i chi wneud datganiad ynghlŷn â'r niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal yn ystod y pandemig?”

Ymateb y Cyngorydd C Leyshon:

Cadarnhaodd y Cyngorydd Leyshon nad oedd cyfradd y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, ond mae cyfyngiadau'r pandemig wedi effeithio ar allu'r Gwasanaethau i Blant i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â theuluoedd er mwyn helpu plant i adael y system dderbyn gofal yn ddiogel. Mae hyn wedi bod yn bosibl lle mae plant wedi cael eu symud ymlaen, yn cynnwys i deuluoedd sy'n eu mabwysiadu, gan ddilyn canllawiau Cenedlaethol. Nid yw'r ffigurau wedi cynyddu.

Cwestiwn atodol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen i Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol, C Leyshon:-

“Rwy'n effro i'r ffaith y bydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn ystyried adroddiad Blyneddol y Gwasanaethau i Blant yfory. Ar 31 Mawrth 2020 roedd nifer y plant oedd yn derbyn gofal gennym ni oedd 717. Ym mhapurau'r Cabinet, dyddiedig 25 Mehefin, pan drafododd y Cabinet effaith ariannol Covid-19, roedd cyfeiriad at 'nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal', ac amcangyfrif o'r niferoedd rhwng Ebrill 2020 a Mehefin 2020. Os mai 717 yw'r nifer cyfredol o hyd, pa raglenni ychwanegol a gaiff eu rhoi ar waith i roi cymorth academiaidd, emosiynol a chymdeithasol i blant a'r bobl ifainc sy'n derbyn gofal drwy gydol y cyfnod dirdynol yma? ”

Ymateb y Cynghorydd C Leyshon:

“Cadarnhaodd y Cynghorydd Leyshon fod 708 o blant yn derbyn gofal o ddydd Llun yr wythnos hon, sef y ffigur cywir. Mae nifer o becynnau cymorth ar waith ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys canolfannau i blant a gwaith gyda'r gwasanaeth teuluoedd cydnerth. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bu angen brys i gwrdd â phlant a'u teuluoedd. Mae'r Cyngor mewn cysylltiad â theuluoedd agored i niwed dros y ffôn. Darperir cynllun chwarae trwy gydol gwyliau'r haf, a chaiff teuluoedd eu blaenoriaethu o ran cadw lle ar y cynllun.”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“A wnewch chi ddatganiad ar effaith Covid19 ar Ronda Cynon Taf?”

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

“Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan y Cynghorydd Davies at ei ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Fychan yn gynharach, a nododd y bydd effaith derfynol pandemig Covid yn cymryd peth amser i'w ddadansoddi, bydd yr effaith ar iechyd meddwl a lles pobl, a'r effaith ar blant sy'n cymryd amser i ffwrdd o'r ysgol, yn cymryd amser i'w ddeall. Mae'r effaith economaidd yn debygol o fod gyda ni am gryn amser i ddod, mae darlun yn dod i'r amlwg ledled y wlad ynghylch colli swyddi, gyda rhai cwmnïau mawr, er enghraifft GEC yn Nantgarw, yn dioddef. Wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben, efallai y byddwn ni'n gweld effeithiau pellach ar rai cwmnïau - megis cwmnïau'n torri'r wythnos waith i lawr i bedwar diwrnod ac yn cynnig 20% yn llai o gyflog i weithwyr. Mae pryderon hefyd ynghylch a fydd y gymuned yn dychwelyd i siopau'r stryd fawr yn hytrach na siopa ar y we, a ph'un a fydd trigolion yn teimlo'n ddigon hyderus i ddychwelyd i fwytai nei sinemâu.

Hyd yma rydyn ni wedi derbyn mwy na 1,000 o geisiadau ychwanegol am ryddhad Treth Gyngor ac mae mwy na 1,000 o blant ychwanegol wedi ymuno â'r cynllun Prydau Ysgol Am Ddim sy'n dangos bod pandemig Covid wedi cael effaith ar deuluoedd.

Cwestiwn atodol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:-

“Yn y nofel ‘The Plague’ gan Albert Camus, dywed y meddyg ‘What we learn in time of pestilence: that there are more things to admire in men than to despise’. Mae hyn wedi bod yn wir yn achos Rhondda Cynon Taf dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Rydym wedi gweld staff yn y Gwasanaeth Iechyd, staff y Cyngor, gweithwyr trafndiaeth, gweithwyr siopau a llawer o wirfoddolwyr yn gweithio gyda'i gilydd, yn arbennig er budd pobl agored i niwed ond hefyd er budd ein cymdeithas yn gyffredinol. Mae pob un yn haeddu ein hedmygedd a diolchwn iddyn nhw.

Fy nghwestiwn atodol yw beth mae'r Cyngor wedi'i ddysgu o'r profiad o weithredu yn ystod y pandemig, a beth fydd y Cyngor yn ei newid os daw ail don o'r feirws? Efallai pe bai ton yn digwydd mewn ward benodol, y byddai modd ymgynghori â'r Cynghorwyr lleol? A pha bethau sydd wedi gweithio'n well yn

ystod y cyfnod yma, y mae modd parhau i'w defnyddio yn y dyfodol?"

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

"Fe nododd y Cynghorydd Morgan efallai na fydd ail don yn digwydd ar unwaith, ac, yn ôl lechyd Cyhoeddus Cymru mae'n debyg y gwelwn ni weld achosion mewn clystyrau lleol o'r feirws. Gyda chefnogaeth y Rhaglen Profi ac Orlhain, bydd modd mynd i'r afael â'r problemau hyn yn gyflym. Bydd y cyngor yma'n rhoi rhagor o hyder i'n cymunedau.

Fel Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dywedodd y Cynghorydd Morgan ei fod yn cael cyfarfodydd gyda phob un o'r 22 Arweinydd awdurdod lleol sy'n bwydo i mewn i adolygiad Llywodraeth Cymru, sy'n gyfle i ddysgu rhagor am Covid-19 a materion fel cyfarpar diogelu personol, darparu gofal cymdeithasol a chefnogi trigolion sy'n agored i niwed. Er bod ail don yn annhebygol, pe byddai hyn yn digwydd yn RhCT a phe byddai ail gyfnod clo, dywedodd y Cynghorydd Morgan fod y Cyngor yn llawer mwy parod erbyn hyn, gan fod mesurau, megis yr isadeiledd sy'n galluogi staff i weithio gartref a champau i ddiogelu cyfarpar diogelu personol, ar waith. Pe bai digwyddiad tebyg i'r un ym Merthyr neu achos fel yn Wrecsam a phe bai trosglwyddiad yn y gymuned, byddai'r cyngor yn ystyried yr amgylchiadau unigol - sy'n golygu na fyddai gofyn i RhCT gyfan wynebu cyfyngiadau symud, o reidrwydd. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rhannu'r hyn mae staff lechyd yr Amgylchedd yn ei ddysgu gyda'r holl awdurdodau lleol. "

174 Rhaglen Waith y Cyngor

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu y byddai adroddiad yn amlinellu cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig y Cyngor, ar ôl ffurfio Grŵp Annibynnol Rhondda Cynon Taf, yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) ym mis Medi. Byddai'r adroddiad yn cadarnhau bod pedwar grŵp gwleidyddol ac un Aelod heb ei ddyrannu.

Hefyd rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth rybudd ymlaen llaw y gallai adroddiad diweddar yn amlinellu'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf gael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 23 Medi 2020.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhan o raglen waith y Cyngor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu.

175 Y Newyddion Diweddaraf mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Rhondda Cynon Taf

Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu fod y Cyngor wedi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2017. Roedd y cynllun yma'n nodi ei ddyddiad dechrau swyddogol fel Mehefin 2020. Oherwydd cyfyngiadau yn sgil y Coronafeirws, doedd dim modd lansio'r adolygiad ym mis Mehefin oherwydd bod angen ymgysylltiad cyhoeddus sylweddol yn ystod y camau cyntaf.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn i ddiwygio'r cytundeb cyflenwi ar gyfer paratoi cynllun datblygu lleol diwygiedig Rhondda Cynon Taf o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r dyddiad lansio diwygiedig arfaethedig fyddai Medi 2020.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr i nifer o ymholiadau megis sut mae'r Cyngor yn cymryd arweiniad a chynghor gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru ynghylch yr hyn sy'n berthnasol i'w ystyried fel rhan o'r Cytundeb Cyflenwi ac mewn perthynas â'r strategaeth ymgysylltu â'r gymuned.

Clywodd yr Aelodau fod cylch gorchwyl ac aelodaeth Grŵp Llywio'r Aelodau, a fyddai'n chwarae rhan swyddogol wrth baratoi'r CDLI diwygiedig, wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn wreiddiol, ond oherwydd Covid-19 cynigiwyd y byddai enwebiadau bellach yn cael eu cyflwyno gan Arweinwyr Grŵp a byddai aelodaeth y Grŵp Llywio yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.

I gloi, cynigiodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu y byddai modd ymestyn y rhestr ymgynghorai gyfredol sydd ar waith gyda chyrff rhanddeiliaid wedi'u targedu, yn dilyn ymgynghori â Grŵp Llywio'r Aelodau. Cydnabu hefyd yr heriau a wynebwyd o ran ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori â'r gymuned o ystyried y cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol sydd ar waith.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi diwygiedig arfaethedig ar gyfer y CDLI Diwygiedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf (fel y nodir yn Atodiad 1 i adroddiad y Cyngor) sy'n amlinellu'r amserlen ddiwygiedig a'r dull o gynnwys y gymuned ac ymgysylltu â hi er mwyn paratoi ar gyfer yr adolygiad; a

2. Cyflwyno'r Cytundeb Cyflenwi diwygiedig i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

176 Adolygiad Blynyddol Cylch Rheoli'r Trysorlys 2019/20

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol fod gweithgareddau Rheoli Trysorlys Blynyddol y Cyngor yn destun gwaith rheoleiddio a chraffu eang drwy ei brosesau mewnol. Mae'r adroddiad yma'n sicrhau cydymffurfriad y Cyngor â'r angen i ddarparu Adolygiad Rheoli Trysorlys blynyddol sy'n dilyn adolygiad canol blwyddyn, a adroddwyd yn flaenorol i'r Cyngor ar 27 Tachwedd y llynedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod digwyddiadau fel pandemig byd-eang a Brexit wedi creu ansicrwydd yn y marchnadoedd, a rhagor o gyfnewidioldeb gyda chyfraddau llog. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi manteisio arno trwy sicrhau cyfraddau benthyca ychwanegol isel. Cost benthyca cyfartalog y Cyngor yw 3.33%, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol pan oedd cost benthyca yn 4.75%.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20, a'i strategaeth fuddsoddi a chanlyniadau gweithgaredd buddsoddi, a nodwyd yn yr adroddiad, sy'n dangos strategaeth risg isel barhaus y Cyngor a'i enillion ar fuddsoddiadau ychydig y tu ôl i'r meincnod.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr i nifer o ymholiadau yn ymwneud ag Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu beth yw rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o ran trafod Adroddiad Cyflawniad y Cyngor (31 Mawrth 2020) yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2020.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

177 Y Newyddion Diweddaraf am Gyfarfodydd Rhithwir

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu ei adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau mewn perthynas â chyfarfodydd rhithwir y Cyngor, yn sgil cyflwyno [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#), a'r adroddiad diweddarau blaenorol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 1 Gorffennaf.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau fod y cam cychwynnol yn blaenoriaethu cyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Ers y diweddariad diwethaf mae nifer o bwyllgorau eraill wedi ymgynnull gan gynnwys y Pwyllgor Craffu thematig cyntaf, y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc. Cynhaliwyd y cyfarfod yma er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau drafod a chraffu ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor ynghylch dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Cyfeiriwyd yr aelodau at amserlen y cyfarfodydd yn 6.3 o'r adroddiad, sy'n nodi'r cyfarfodydd sydd wedi trefnu hyd at Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, yn seiliedig ar y dyddiadau a gadarnhawyd hyd yma. Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant a'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad yn cwrdd cyn y CCB os bydd uned Busnes y Cyngor o'r farn bod hynny'n briodol.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd ymgysylltiad parhaus ag Arweinwyr y Grwpiau'n parhau i ddatblygu dulliau o gyfarfod yn y dyfodol, er enghraifft dull hybrid o gynnal cyfarfodydd rhithwir. Ychwanegodd y bydd y Cyngor yn parhau i adeiladu ar y cyfleoedd y mae ymgysylltu rhithwir yn eu darparu, megis sicrhau bod modd i Aelodau gyfrannu at ddull gweithredu democraidaidd y Cyngor.

Yn dilyn trafodaethau mewn perthynas â'r ymweliad diweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a chadarnhad gan yr Arweinydd y byddai'r Bwrdd, yn dilyn penodi'r Prif Weithredwr newydd ym mis Medi, yn dychwelyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, cynigiwyd y byddai Arweinwyr y Grwpiau yn cyfarfod ymlaen llaw, ac y byddai'r Aelodau'n nodi meysydd allweddol i'w trafod.

Cynigiwyd hefyd y dylid newid amser cychwyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) y Cyngor o 3pm i 4pm er mwyn sicrhau bod modd i'r Aelodau hynny sydd ag ymrwymadau gofal plant/gwaith gymryd rhan.

Ar ôl ystyried yr adroddiad cyfarfodydd rhithwir **PENDERFYNWYD**: -

1. Cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyfarfodydd rhithwir;
2. Nodi trefn y cyfarfodydd pwyllgor sydd wedi'i nodi yn yr amserlen amgaaedig, hyd at, ac yn cynnwys, 16 Medi 2020 (CCB y Cyngor); a

3. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddarparu diweddariadau pellach ar gynnydd cyfarfodydd rhithwir y Cyngor.

178 Rhybudd o Gynnig (gohiriwyd y mater o'r cyfarfod ar 18 Mawrth 2020)

Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol J. James a L. Hooper:-

Amcangyfrifir bod 200,000 o blant y DU yn cael eu magu gan aelodau'r teulu neu ffrindiau. Gelwir trefniant o'r math hwn yn 'Ofal gan Berthnasau a Chyfeillion'.

Mae'r math yma o gynhalwyr (gofalwyr) yn gofalu am blant nad oes modd i'w rhieni eu hun edrych ar eu holau neu gadw'r teulu gyda'i gilydd. Mae teirgwaith y nifer o blant yn derbyn y math yma o ofal nag sy'n rhan o'r system ofal maeth genedlaethol, ac mae'r niferoedd yn cynyddu.

Dyma un o'r prif ffyrdd o sicrhau ymdeimlad o ddiogelwch, cysondeb a pherthyn ar gyfer plant nad oes modd iddyn nhw fyw gyda'u teuluoedd, ac mae'n rhoi llawer iawn o sicrwydd a chefnogaeth barhaus iddyn nhw tra byddan nhw'n tyfu'n oedolion ifainc.

Serch hynny, mae'r cymorth sydd ar gael i Berthnasau a Chyfeillion sy'n Gynhalwyr ledled y wlad yn anghyson, ac mae modd i gynhalwyr deimlo'u bod nhw wedi'u hynysu, bod neb yn poeni a bod pawb wedi troi'u cefnau arnyn nhw. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r cymorth y mae modd i rieni maeth a rhieni sy'n mabwysiadu ei dderbyn.

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y gwaith amhrisiadwy y mae cynhalwyr sy'n berthnasau a chyfeillion yn ei wneud ar ran eu hanwyliaid, yn aml mewn sefyllfaoedd anodd, ac mae'n ymrwymo i gynnig yr help, yr anogaeth a'r cymorth y maen nhw eu hangen

Mae'r Cyngor yma'n gofyn bod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn trafod adroddiad sy'n edrych ar rôl gofal gan berthnasau a chyfeillion yn y Fwrdeistref Sirol ymhellach, ac yn gweithio'n agos gyda Grandparents Plus i nodi sut y gall fodloni anghenion y cynhalwyr yma a'r plant sydd yn eu gofal.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig mewn perthynas â chynhalwyr sy'n berthnasau a chyfeillion, a chyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc i'w ystyried ymhellach (ar y cyd â 'Grandparents Plus' a Bwrdd Rhianta Corfforaethol y Cyngor).

179 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu nad oedd Materion Brys i Aelodau eu hystyried ac ar ôl trafod eitem 11 ar yr agenda, sef penodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, a phenodi Dirprwy Brif Weithredwr, y byddai'r Llywydd yn dod â'r cyfarfod i ben.

Penderfynodd yr Aelodau y byddai'r cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf

Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

180 Penodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a phenodi Dirprwy Brif Weithredwr

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ei adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor o benderfyniad y Pwyllgor Penodiadau, ynghylch penodi'r ymgeisydd a ddewiswyd i swydd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ac ystyried yr argymhelliad ar gyfer penodi Dirprwy Brif Weithredwr newydd.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ynghylch penodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant 1 Ionawr 2021; a
2. Bod y Cyfarwyddwr Cyfadran – Materion Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-Flaen yn ymgymryd â rôl y Dirprwy Brif Weithredwr o 1 Ionawr 2021

(Noder: Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyfadran – Materion Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-Flaen fuddiant personol mewn perthynas â'r mater ymlaen llaw, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.)

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30pm

**Y Cyngorydd S. Powderhill:
Cadeirydd**